

Archwilio Pam **Croes**



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Croes

Leslie J Francis a Tania ap Siôn
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', er mwyn eu helpu

i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe welon nhw groes yn y pellter, ac yna fe fuon nhw'n ceisio gweld sawl croes arall y gallen nhw ddod o hyd iddi, a ble.



Cychwynnodd Aled a Siân eu taith yn yr arcêd siopa. Fe wnaethon nhw gerdded heibio siop ddillad a siop oedd yn gwerthu bagiau. Fe wnaethon nhw gerdded heibio siop oedd yn

gwerthu papurau newydd, cylchgronau a chardiau. Yna, fe wnaethon nhw aros wrth siop y gemydd ac edrych drwy'r ffenestr. Fe fuon nhw'n edrych ar y tlysau aur ac arian yn disgleirio yn y golau.



Yno, yn y ffenestr, fe welon nhw watshis, clociau, modrwyau a chlustdlysau aur ac arian. “Dw i’n gweld, â’m llygad bach i – croes,” gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at res o groesau aur yn hongian

ar gadwyni aur. Roedd rhai yn blaen a rhai gydag addurn arnyn nhw. “Tybed pam mae’r groes mor bwysig?” gofynnodd Aled.



Aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith drwy'r arcêd, nes cyrraedd hen sgwâr y farchnad. Yn sgwâr y farchnad fe welon nhw ddynion oedrannus yn eistedd ar fainc yn sgwrsio gyda'i gilydd. Fe welon

nhw famau'n gwrthio plant bach mewn bygis. Fe welon nhw blant hŷn yn chwarae wrth y ffynnon ac yn sbasio dŵr at ei gilydd.



Yna, yng nghanol yr holl bobl, edrychodd Aled a Siân i fyny ar y groes dal ar sgwâr y farchnad. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – croes,” meddai Aled. Roedd y groes mor dal, roedd hi’n gwneud i Aled a Siân deimlo’n fach iawn. Fe fuon nhw’n sylwi ar

y patrymau troellog oedd wedi’u cerfio yn y garreg, ac yn estyn eu dwylo i deimlo’r cerfiadau. “Tybed pam mae’r groes mor bwysig?” gofynnodd Siân.



Aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith drwy hen sgwâr y farchnad. Fe wnaethon nhw gerdded heibio siop ddodrefn gyda'i byrddau a'i chadeiriau. Fe wnaethon nhw gerdded heibio siop y fferyllydd

gyda'i photeli a'i bocsys yn y ffenestr. Yna, fe wnaethon nhw aros yn y caffi hen ffasiwn. Yma, fe wnaethon nhw brynu hufen iâ ac eistedd wrth y bwrdd.



Fe fuon nhw'n sylwi ar yr hen luniau ar y wal. Roedd yno bosteri o'r 1950au, yn hysbysebu bisgedi. Roedd yno ffotograffau o'r 1960au, o bobl yn gwisgo dilladau hen ffasiwn. "Dw i'n gweld â'm

llygad bach i – croes," meddai Siân. Yno, rhwng y poster a'r lluniau fe welson nhw hen groes bren. "Tybed pam mae'r groes mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Wedi iddyn nhw orffen bwyta'u hufen iâ, aeth Aled a Siân o'r caffi a cherdded ar hyd y stryd fawr. Fe wnaethon nhw gerdded heibio parc y dref. Yno, fe welon nhw blant yn chwarae ar y siglenni a phobl

yn mynd â'u cŵn am dro. Yna, fe wnaethon nhw aros i edrych ar yr hen gerrig beddau ym mynwent y dref.



Yno, fe welon nhw gerflun o angel gyda'i adenydd ar led, wedi'i gerfio mewn carreg wen. Yno, yn y fynwent, fe welon nhw wrn mawr, wedi'i gerfio mewn marmor glas. "Dw i'n gweld â'm llygad bach

i – croes," meddai Aled. Yn y fynwent, roedd croesau syml o bren a chroesau mawr wedi'u cerfio mewn carreg. "Tybed pam mae'r groes mor bwysig?" gofynnodd Siân.




Wedi iddyn nhw orffen edrych o gwmpas mynwent y dref, aeth Aled a Siân ymlaen heibio rhes o hen dai teras, heibio'r byngalos smart, a heibio'r bloc o

fflatiau newydd. Yna, fe ddaethon nhw at y tŷ lle mae eu ffrindiau, Peter a Mary, yn byw gyda Twm y gath a Pero'r ci.



Roedd Peter a Mary'n byw yn y ficerdy yn ymyl Eglwys San Silyn. Eu mam oedd y ficer a oedd yn gofalu am yr eglwys. Y diwrnod hwnnw, roedd eu mam yn gwisgo siwt dywyll smart, gyda chrys du a

choler wen. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – croes," meddai Siân. Yno, ar siaced y ficer roedd croes. "Tybed pam mae'r groes mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Aeth Peter a Mary ag Aled a Siân i mewn i'r eglwys fawr yn ymyl eu cartref. Fe welon nhw'r fedyddfaen garreg fawr yn union wrth y drws. Fe welon nhw'r Beiblau yn y seddau. Fe welon nhw'r ffenestri lliw

hardd. Fe welon nhw'r organ enfawr, ac fe fuon nhw'n gwrandio ar y gerddoriaeth oedd yn llenwi'r adeilad.



Arweiniodd Peter a Mary Aled a Siân i du blaen yr eglwys. Yno, fe welon nhw'r allor a'r lliain gwyrdd lliwgar drosti. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – croes," meddai Aled. Yno, ar ganol yr allor, roedd

croes bres loyw rhwng dwy ganhwyllbren bres, a dwy fâs o flodau. "Tybed pam mae'r groes mor bwysig?" gofynnodd Siân.



Wedi iddyn nhw orffen edrych o gwmpas yr eglwys, aeth Peter a Mary ag Aled a Siân yn ôl gyda nhw i'w cartref. Fe wnaethon nhw bwyntio at y groes wrth y drws ffrynt. Fe wnaethon nhw

bwyntio at y groes yn union y tu mewn i'r fynedfa. Yna, fe ddechreuodd Peter a Mary egluro pam mae'r groes mor bwysig i'w teulu, ac i'w mam, y ficer.



Tra oedd Peter a Mary'n dangos y croesau yn eu cartref i Aled a Siân, fe wnaeth eu mam ddiod iddyn nhw i'w hyfed. Ac am ei bod yn ddechrau gwyliau'r Pasg, roedd hi wedi rhoi picau'r Grog

iddyn nhw i'w bwyta. Roedd hi wedi eu cynhesu yn y popty. "Rydyn ni'n bwyta picau'r Grog i gofio sut gwnaeth lesu farw ar y groes," meddai hi.



Wedi iddyn nhw yfed eu diod a bwyta'u picau'r Grog, dangosodd Peter a Mary swyddfa eu mam i Aled a Siân. Yno, fe welon nhw Feibl eu mam. Dechreuodd Peter a Mary ddweud wrth Aled a

Siân sut roedd Iesu wedi cael ei arestio, ei roi ar bawf, a'i ddedfrydu i farw ar y groes. Fe ddigwyddodd hynny ar ddydd Gwener y Grogolith.




Fe ddaethon nhw o hyd i bennod 19 yn Efengyl Ioan yn y Beibl, a darllen y testun yn uchel. “Felly cymerasant Iesu. Ac aeth allan, gan gario’i groes ei hun, i’r man a elwir Lle Penglog (yn iaith yr

Iddewon fe’i gelwir Golgotha). Yno croeshoeliasant ef, a dau arall gydag ef, un ar bob ochr a Iesu yn y canol.”



Rhoddodd Peter a Mary wahoddiad i Aled a Siân ymuno â nhw ar daith gerdded, Taith Pererindod y Grogolith, drwy'r dref ar ddydd Gwener y Grogolith. Roedd Pererindod y Grogolith yn cychwyn yn Eglwys

San Silyn. Darllenwyd yr hanes o'r Beibl am Iesu'n cael ei arestio a'i roi ar brawf. Yna, roedd croes fawr bren yn cael ei chario o Eglwys San Silyn allan i'r stryd.



Gyda'r holl bobl eraill, cerddodd Aled a Siân y tu ôl i'r groes yn araf. Fe wnaethon nhw gerdded heibio'r fynwent a heibio'r parc. Fe wnaethon nhw gerdded heibio'r caffi hen ffasiwn, siop y fferylllydd

a'r siop ddodrefn. Fe wnaethon nhw gerdded drwy sgwâr y farchnad, heibio croes y farchnad, a cherdded yr holl ffordd i'r eglwys ym mhen arall y dref.



Dysgodd Aled a Siân pa mor bwysig yw'r groes ar ddydd Gwener y Grogllith. Yna, rhoddodd Peter a Mary wahoddiad iddyn nhw ddod yn ôl i Eglwys San Silyn ar ddydd Sul y Pasg i glywed beth oedd

diwedd y stori. Ar ddydd Sul y Pasg, roedd y groes yr oedden nhw wedi'i dilyn drwy'r dref yn sefyll y tu allan i'r eglwys ag arwydd mawr arni, 'Atgyfododd Crist!'



Ar ddydd Sul y Pasg, y tu mewn i Eglwys San Silyn, fe welodd Aled a Siân ardd y Pasg. Yn ymyl tair croes wag roedd bedd gwag y Pasg. Nawr, roedd y Beibl wedi'i agor ar bennod 20, Efengyl Ioan, a'r

geiriau'n cyhoeddi newyddion da am atgyfodiad y Pasg. 'Atgyfododd Crist. Atgyfododd yn wir. Haleliwia!'



Ar ddydd Sul y Pasg, fe welodd Aled a Siân y bedd gwag. Fe welon nhw'r garreg wedi'i symud oddi ar y bedd. Fe wnaethon nhw edrych i fyny ar y groes wag. Ac fe wnaethon nhw ailadrodd gwaedd o

lawenydd y Pasg, "Atgyfododd Crist. Atgyfododd yn wir. Haleliwia!." "Nawr, rydyn ni'n gwybod pam mae'r groes mor bwysig!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am 'Groesau'. Maen nhw'n dod o hyd i groesau mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw'n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â'u ffrindiau, Peter a Mary, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – "Tybed pam mae'r groes mor bwysig?" Gyda help Peter a Mary, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing